PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Gweithwyr Ymgysylltu Sesiynol Cyfranogiad

**Allwch chi feithrin cydberthnasau gwaith cryf gyda phlant a phobl ifanc?**

**Ydych chi'n angerddol dros gefnogi plant a phobl ifanc i gael llais a chymryd rhan?**

Mae Plant yng Nghymru yn chwilio am weithwyr sesiynol i gefnogi tîm Cymru Ifanc yn ystod gweithgareddau ymgysylltu fel cyfarfodydd preswyl, gwyliau a digwyddiadau ymgynghori.   Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddinasyddiaeth weithgar a chlywed lleisiau plant a phobl ifanc 11-25 oed. Penodi

## Penodi

Rydym yn chwilio am rai sydd â gwybodaeth dda am Ddiogelu, Hawliau Plant a dulliau hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc. Os ydych chi'n gallu dangos sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a threfnu cryf, ynghyd â dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfranogiad, yna hoffem glywed gennych chi.

## Bydd y tasgau allweddol yn cynnwys

- Darparu cefnogaeth ymgysylltu mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a sesiynau a drefnir gan dîm Cymru Ifanc gan gynnwys cyfarfodydd preswyl dros nos mewn gwahanol leoliadau.
- Meithrin cydberthynasau cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol.
- Rhoi blaenoriaeth i gynhwysiant, diogelu a sicrhau'r effaith fwyaf ystyrlon i gyfranogwyr bob amser.
- Dilyn gweithdrefnau perthnasol i sicrhau diogelwch a lles cyfranogwyr gan gynnwys asesiad risg, gweithdrefn ddiogelu a dilyniant/cofnodi gyda'r rheolwr dynodedig.
- Cyfrannu cynnwys at allbwn cyfathrebu Cymru Ifanc gan gynnwys blogiau, erthyglau a chynnwys cyfryngau cymdeithasol.
- Cefnogi cynllunio a threfnu cyn cyflwyno gweithgareddau Cymru Ifanc yn ogystal â chefnogaeth ar ôl ymgysylltu.
- Cyflawni amcanion a rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt yn ôl y safonau ac yn unol â gwerthoedd Plant yng Nghymru.
- Ymgymryd â'ch gwaith gweinyddol eich hun.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn ôl cais Uwch Dîm Arweinyddiaeth Plant yng Nghymru.

## Pwy allai fod â diddordeb

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb, waeth beth fo'u hoedran, eu statws priodas a phartneriaeth sifil (o'r un rhyw neu o'r rhyw arall), nam neu gyflwr iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwrth-hiliol a chynyddu amrywiaeth drwy gael gwared ar rwystrau a chefnogi ein holl staff i gyrraedd eu potensial. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn Plant yng Nghymru.

Gallai'r swydd hon fod o ddiddordeb i'r rhai sy'n awyddus i gyfrannu amser yn hyblyg i gefnogi prosiectau Plant yng Nghymru ar sail sesiynol.

## Y manylion

**Yn adrodd i:** Rheolwr Cymru Ifanc
**Cyfradd tâl:** £130 y dydd / £18.50 awr
**Oriau:** dim oriau wedi'u gwarantu
**Lleoliad:** Caerdydd gyda rhywfaint o deithio ledled Cymru gan gynnwys aros dros nos. Bydd costau teithio yn cael eu had-dalu.

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol cyn ystyried gwneud cais, cysylltwch â Thency Gunasekaran – Rheolwr Cymru Ifanc thency.gunasekaran@childreninwales.org.uk

## Sut i wneud cais

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais, anfonwch eich CV ynghyd â'ch atebion i'r cwestiynau canlynol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu eich enw ac unrhyw wybodaeth gellir eich adnabod drwyddi oddi ar eich CV cyn ei gyflwyno.

1. **Pa sgiliau a phrofiad fyddech chi'n eu cynnig?** *[Uchafswm o 250 gair]*
2. **Beth yw manteision gwaith cyfranogiad yn eich barn chi?** *[Uchafswm o 250 gair]*

Am gymorth gyda'r broses ymgeisio cysylltwch â susie.mcandrew@childreninwales.org.uk

**Bydd ceisiadau yn aros ar agor yn ystod 2026**

Os byddwch yn llwyddo i gyrraedd y cam cyfweliad, cewch gynnig dyddiad cyfweliad drwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Amdanom ni

Mae gan Plant yng Nghymru dros 31 mlynedd o gydweithio â sefydliadau ac unigolion i hyrwyddo hawliau babanod, plant a phobl ifanc drwy ein rhaglen waith helaeth fel y sefydliadau ymbarél cenedlaethol ar gyfer plant. Mae ein hymrwymiad i chwyddo lleisiau plant a phobl ifanc wrth wraidd ein gwaith a gellir dangos hynny drwy ein rhaglen Cymru Ifanc.

Am ragor o wybodaeth am ein gwaith, ewch i fwrw golwg ar ein gwefan.